

Cyfrinach gwyleidd-dra

“Yna tywalltodd ddŵr i’r badell, a dechreuodd olchi traed y disgyblion, a’u sychu â’r tywel oedd am ei ganol.” (adn. 5)

Beth am ddarllen Ioan 13:1–17 ac yna myfyrio

Mae’r darlleniad yma mor bwysig fel bod yn rhaid i ni dreulio diwrnod arall yn ei ystyried. Roedd cyfrinach gwyleidd-dra anhygoel Iesu yn seiliedig ar ei sicrwydd llwyr ynglŷn â phwy ydoedd a beth ydoedd. Gan ei fod yn sicr ynglŷn â’i dras (ei fod wedi dod oddi wrth Dduw), ei dynged (ei fod yn dychwelyd at Dduw) a’i awdurdod gan Dduw (roedd y Tad wedi rhoi popeth dan ei allu), gallai, heb gywilydd, blygu i olchi traed ei ddisgyblion. Yn rhydd oddi wrth ofynion parhaus i’w brofi ei hun, yn rhydd oddi wrth y pwysau i gadw wyneb, roedd yn rhydd i’w ddarostwng ei hun er gogoniant ei Dad ac er mwyn anghenion ei gyfeillion. Roedd Iesu’n gwybod pwy ydoedd oherwydd ei fod yn gwybod i bwy roedd yn perthyn, ac, felly, yn hyderus o’i le yn Nuw, gallai gymryd tywel a golchi traed y disgyblion.

Nid bychanu’r hunan mo hyn (ac mae llawer o’r hyn a alwn yn wyleidd-dra yn hyn) ond ymwybyddiaeth o fawredd. All y rhai bychain ddim meiddio â bod yn ostyngedig; byddai’n ormod o fygythiad iddynt. Ond roedd mawredd Iesu wedi’i wreiddio yn Nuw, ac roedd bod yn Nuw yn ei wneud yn fawr – ac yn wylaidd. Dywedodd Dr. E. Stanley Jones fod Iesu’n fawr oherwydd ei wyleidd-dra ac yn wylaidd oherwydd ei fawredd. Dim ond ‘ynddo ef’ y gellir ein rhyddhau o’r ansicrwydd distrywiol sy’n peri ein bod un ai yn orymwthgar gyda’n cymydog, neu’n ein hymostwng ein hunain mewn hunan-atgasedd.

Mae gwyleidd-dra yn bosibl i’r rhai mae eu bywydau wedi’u hailwreiddio yng nghariad Duw yng Nghrist. Os ydy’ch gorffennol a’ch dyfodol a’ch presennol yn nwylo Duw, yna byddwch yn profi gwir fawredd. Ni fyddwch yn dibrisio’ch hunan wrth gymryd tywel a golchi traed. Fel y Meistr, felly’r gwas.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 23:1–6; 31:1–8, 14–16; Marc 10:42–45; Eff. 3:14–19

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mhwy mae hyder y salmydd?
2. Beth ydy gweddi Paul ar gyfer y rhai ‘sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen’ eu bywyd?

Gweddi

O Dad, dw i’n derbyn mai ffynhonnell gwyleidd-dra ydy ymwybyddiaeth o fawredd. Helpa fi i weld mai yn Nuw mae fy mawredd, nid ynof i fy hun, ac felly, o’r safbwynt hwnnw, helpa fi i weinidogaethu mewn gwir ostyngeddwrwydd i eraill. Yn enw Iesu. Amen.